



Datganiad i'r Cyfryngau
16eg Awst 2022
I'w ryddhau ar unwaith

Ffilm newydd Gwledd yn dod â'r iaith Gymraeg yn ôl i Sgriniau Sinema am y tro cyntaf mewn tair blynedd

Caiff *Gwledd*, ffilm arswyd iasol Gymraeg ei rhyddhau mewn sinemâu yn unig ar Awst 19, drwy Picturehouse Entertainment. Dyma'r ffilm Gymraeg gyntaf i'w dangos i gynulleidfaoedd sinema ers rhyddhau'r ffilm ddogfen gerddorol *Anorac* yn 2019.

Wedi'i gosod yng nghanolbarth Cymru, cafodd y ffilm ei gyrru gan dalent Cymreig. Wedi ei hysgrifennu gan Roger Williams a'i chyfarwyddo gan Lee Haven-Jones, mae'n cynnwys actorion amlwg Cymraeg Nia Roberts a Julian Lewis Jones, yn ogystal â thalentau newydd Steffan Cennydd ac Annes Elwy.

Mae Annes Elwy yn chwarae Cadi – menyw ifanc sydd yn derbyn swydd fel gweinydd i deulu cyfoethog yng nghefn gwlad Cymru, ar drothwy parti pwysig. Wrth i'r noson fynd rhagddi mae'n dechrau herio credoau'r teulu gan ddatgelu'r twyll y maen nhw wedi ei greu gyda chanlyniadau brawychus.

Mae'r ffilm yn arwyddocaol i Gymru, gan gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd yn fyd-eang, tra hefyd yn ateb galw lleol gan Gymry i wyllo straeon yn eu mamiaith. Yn draddodiadol mae cais wedi bod am fersiynau deuol o ffilmiau. Mae *Gwledd*, sydd yn Gymraeg yn unig yn creu llwybr ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Mae'n anrhydeddu'r Gymraeg a hefyd yn agor y drws ar gyfer gwneud rhagor o ffilmiau. Fe fydd cydweithrediad newydd rhwng S4C a Cymru Creadigol yn golygu y bydd miliwn yn cael ei fuddsoddi yn flynyddol mewn ffilmiau Cymraeg gan gefnogi ymrwymiad y Senedd i ddatblygu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dangos newid cadarnhaol tuag at wneud ffilmiau Cymraeg.

Dywedodd Roger Williams, awdur *Gwledd*:

"Pe byddem yn eofn ynghylch adrodd ein straeon ar y sgrin fawr, fawr yma, gallem ddechrau adeiladu'r math o ddiwylliant lle nad ydy hi'n anarferol gweld ffilm Gymraeg yn y sinema..."

Cefnogir rhyddhau'r ffilm gan linydd Gwnaethpwyd yng Nghymru, Ganolfan Ffilm Cymru sydd yn dathlu ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig gan greu mwy o ymwybyddiaeth o straeon o gymunedau Cymreig a helpu i ffurfio ein hunaniaeth diwylliannol.

Dywedodd Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru yng Nghanolfan Ffilm Cymru:

*"Mae ffilmiau Cymreig yn helpu i ffurfio diwylliant Cymru. Mae gan y straeon rydym yn eu hadrodd ar y sgrin gyrhaeddiad byd-eang – yn newid y ffordd y mae'r byd yn gweld ein gwlad. Mae'n gyffrous cael ffilm Gymraeg yn dod i sinemâu lleol a chyunedau unwaith eto ond ni ddylai hyn fod yn eithriad. Mae Cymru yn gartref i genedl amrywiol o adroddwyr straeon ac mae cynulleidfaoedd Cymru yn haeddu gweld rhagor o ffilmiau sydd yn cynrychioli eu iaith, gwlad a diwylliant. Gwyddom y gall *Gwledd* ysbrydoli talent newydd i wneud y ffilmiau maen nhw eisiau eu gweld."*

Drwy Gwnaethpwyd yng Nghymru gall sinemâu ddangos cyfweiliad arbennig gyda Roger Williams ac Annes Elwy, a hefyd traethawd creadigol gan yr awdur llawrydd ac ymchwlydd Rosie Couch, sydd yn edrych ar gyd-destun gwleidyddol ac amgylcheddol y ffilm. Mae Canolfan Ffilm Cymru a Picturehouse hefyd wedi cydweithio i sicrhau y bydd gan sinemâu Cymru fynediad i bosteri

Cymraeg, rhagddangosiadau, disgrifiadau sain a phenawdau trwm eu clyw i wylwyr b/Byddar Cymraeg.

Derbyniodd Gwledd gyllid gan yr asiantaeth datblygu cenedlaethol, Ffilm Cymru Wales.

Mae Kimberely Warner, Pennaeth Cynhyrchu Ffilm Cymru Wales yn esbonio pam bod y ffilm yn arwyddocaol

“Rydym mor falch o fod wedi cefnogi'r ffilm unigryw hon trwy ein cynllun ar gyfer ffilmiau nodwedd cyntaf 'Sinematic', ac hefyd o Roger a Lee sydd nawr yn mentora'r genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr ffilm Cymraeg trwy ein cynllun datblygu talent 'Labordy'. Mae o wedi bod yn blwyddyn addawol i sinema Gymraeg fel cyfan, gyda premieres yng nghwyliau gyffrous yn dod yn fuan ar gyfer ffilmiau Ffilm Cymru 'Jelly' (wedi'u hysgrifennu a'u cyfarwyddo gan Sam O'Rourke) a 'Nant' (ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan Tom-Chetwode Barton). Mae ffilmiau fel Gwledd, a gefnogir gan asiantau gwerthu a dosbarthwyr cryf, sy'n ennill clod rhyngwladol yn ogystal â chenedlaethol, yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu potensial llawn a ddangos yr holl amrywiaeth yn ffilm Gymraeg”.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn cynnig lluoedd o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn mewn partneriaeth gydag arddangoswyr Cymreig, yn cynnwys [catalog ffilmiau](#) gyda 600 o ffilmiau byr a hir gyda chysylltiadau Cymreig.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn derbyn cyllid gan Creative Wales a chyllid y Loteri Cenedlaethol drwy Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI DU gyfan. Fel rhan o FAN, mae Canolfan Ffilm Cymru yn datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn. Gweninyddir cyllid yng Nghymru gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel y Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos at achosion da ledled y DU.

Lle i wylio 'Gwledd':

- [Chapter, Caerdydd](#) (19 Awst – 1 Medi)
- [Cineworld \(Caerdydd, Casnewydd\)](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth](#) (19-25 Awst)
- [Cellb, Blaenau Ffestiniog](#) (19, 20 a 21 Awst)
- [Galeri, Caernarfon](#) (18 Awst)
- [Pontio, Bangor](#) (18 – 25 Awst)
- [Theatr Mwldan, Aberteifi](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Neuadd Dwyfor, Gwynedd](#) (19, 20 a 25 Awst)
- [Showcase, Nantgarw](#) (19 – 25 Awst)
- [Odeon \(Pen-y-Bont, Caerdydd, Llanelli, Abertawe, Wrecsam\)](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Vue \(Caerdydd, Carmarthen, Cwmbran, Merthyr Tydfil, Rhyl, Abertawe\)](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Everyman, Caerdydd](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Gwyn Hall, Castell-Nedd](#) (19 – 25 Awst)
- [Sinema Reel, Port Talbot](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Torch Theatre, Aberdaugleddau](#) (28 Awst – 2 Medi)
- [Public Hall, Brynamman](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Wyeside, Llanfair ym Muallt](#) (2 – 8 Medi)
- [Magic Lantern, Tywyn](#) (dyddiad i'w gadarnhau)
- [Taliesin Arts Centre, Abertawe](#) (dyddiad i'w gadarnhau)

Mae dyddiadau yn amodol i newid. Cadwch lygad ar wefan y sinema ar gyfer manylion am ddangosiadau ffilmiau i ddod.

Gall cynulleidfaoedd weld newyddion am ffilmiau sydd i ddod ar yr adran [gwnaethpwyd yng Nghymru ar wefan Canolfan Ffilm Cymru](#) neu drwy ddilyn @Filmhubwales ar y cyfryngau cymdeithasol.

- DIWEDD -

Mae asedau 'Gwledd' canlynol ar gael:

- Lluniau'r ffilm
- Cyfweiliad gyda'r Roger Williams a Annes Elwy,
- Social quote cards,
- Traethawd creadigol am neges wleidyddol Gwledd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru ar radha@filmhubwales.org
Silvia Sheehan, Swyddog Cyfathrebu / silvia@filmhubwales.org (rhan amser Mawrth - Lau)
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Nodiadau i Golygyddion:

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFFC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros [315 o arddangoswyr](#) ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 250 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 465,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) fel rhan o [Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#), mae [Chapter](#) wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI. [Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham,
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion,
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol,
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan rweiniadt Watershed ym Mryste,
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre,
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast,
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd,
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London,

[Gwefan](#)

Am BFI

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy

Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU

- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Chapter

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemâu, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad y diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo twf ar draws y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan leoli Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.

[Website](#), [Twitter](#)